CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 RHAN IV

CYFARWYDDYD I GOMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU GYNNAL ADOLYGIAD O FFINIAU CYMUNEDOL YN SIR YNYS MÔN

1. Yn y Cyfarwyddyd hwn

   ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

   ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

   ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

2. Yn rhinwedd Gorchymyn (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), mae'r pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 54 a 56 o'r Ddeddf[1] wedi'u breinio yn y Cynulliad i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru. Mae'r swyddogaethau o dan y Ddeddf wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

3. Yn unol ag adran 56(1) o'r Ddeddf, mae'r Cynulliad yn cyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad o'r ffiniau cymunedol yn ardaloedd Cwm Cadnant, Penmynydd, Porthaethwy, Caergybi, Trearddur, Rhoscolyn, Pentraeth, Llanfair-Mathafarn-Eithaf, Llanddyfnan yn Sir Ynys Môn at ddibenion ystyried a ddylid gwneud y cyfryw gynigion ai peidio mewn perthynas â'r ardaloedd a adolygwyd fel y caniateir o dan adran 54, a pha gynigion i'w gwneud, os o gwbl, a bydd yn rhaid i'r Comisiwn, os yw'n barnu bod hynny'n briodol, lunio'r cyfryw gynigion yn unol â hynny.

Sue Essex

Sue Essex

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dyddiad

20-9-06.

---

[1] fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.